AMGUEDDFA CYMRU

# Strategaeth Datblygu'r Casgliad 2023-28

amgueddfa.cymru
museum.wales

# Cyflwyniad

Mae'r Strategaeth Datblygu'r Casgliad yn cefnogi'r gwaith o gyflawni Amgueddfa Cymru 2030, Cynllun Gweithredu Ehangu Ymgysylltiad, Cynllun Rheoli Tir Gwyrdd, a'n cyfrifoldebau tuag at gyflawni Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, Cynllun Gweithredu LHDTC+, Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol Llywodraeth Cymru, Fframwaith Treftadaeth Chwaraeon Cymru Llywodraeth Cymru, ein cyfrifoldebau statudol mewn perthynas â Deddf Trysor, y Rhaglen Lywodraethu, a'r Llythyr Cylch Gwaith.

Mae casgliad Amgueddfa Cymru yn amlddisgyblaethol ac unigryw o ran ei ystod a'i ehangder ar draws y Gwyddorau Naturiol – botaneg, daeareg a sŵoleg; Hanes ac Archaeoleg – cyfoes, cymdeithasol, diwydiannol a phensaernïol, ac archaeoleg gymunedol; mae Celf yn cynnwys dylunio, celf gymhwysol, ffotograffiaeth, a chelf hanesyddol, fodernaidd a chyfoes. Mae gennym gasgliadau llyfrgell, archif, hanes llafar a chlyweledol hefyd sy'n cwmpasu ystod o wahanol feysydd ar draws disgyblaethau'r casgliadau.

Nod y strategaeth yw cefnogi mwy o amrywiaeth wrth gasglu ar draws pob disgyblaeth, gyda ffocws newydd ar gaffaeliadau a chomisiynu, gan gefnogi cynrychiolaeth fwy amrywiol wrth wneud penderfyniadau am beth a sut rydym yn casglu, a chynyddu mynediad at gasgliadau'n ffisegol, yn ddeallusol ac yn ddigidol.

Newidiodd pandemig Covid-19, effaith enbyd yr argyfwng hinsawdd, a llofruddiaeth George Floyd y ffyrdd rydyn ni'n ymgysylltu â'n hymwelwyr ac yn cefnogi ein hymhelwyr i gyflawni budd cymdeithasol. Cododd hyn gwestiynau newydd am y casgliad a sut rydym yn casglu gyda phobl Cymru i sicrhau bod pawb yn cael eu cynrychioli, bod pawb yn cael llais a'n bod ni'n cynrychioli'r amgylchedd naturiol yn ddigonol yn ein casgliad.

Mae ein Strategaeth, Amgueddfa Cymru 2030, yn nodi'n hymrwymiad i sicrhau bod pawb yng Nghymru'n gallu llywio a chymryd rhan yn natblygiad y casgliad cenedlaethol. Rydyn ni'n cydnabod ein cyfrifoldeb i ganolbwyntio ein gwaith gyda'r rhai nad ydynt yn gweld eu bod yn cael eu cynrychioli'n ddigonol yn y casgliad eto. Rydyn ni hefyd yn cydnabod gwerth cydweithio i gasglu sbesimenau i gynrychioli'r amgylchedd naturiol yng Nghymru.

Trwy flaenoriaethu meysydd datblygu ein casgliad, byddwn yn cefnogi'r gwaith o gyflawni chwe ymrwymiad i Gymru ein Strategaeth. Byddwn yn gweithio gyda chymunedau i sicrhau bod yr Amgueddfa yn cynrychioli pawb yn y casgliad. Bydd amrywio'r casgliad a chynyddu cynrychiolaeth yn ysbrydoli creadigrwydd a dysgu am oes. Byddwn yn cyfrannu at waith pwysig rhyngwladol i helpu i ddiogelu ac adfer natur a'r amgylchedd drwy gydweithio a chaffael sbesimenau sy'n bwysig yn strategol. Byddwn yn adolygu meysydd blaenoriaeth y casgliad i sicrhau eu bod yn gallu cefnogi lles trwy lefydd a phrofiadau sy'n ysbrydoli, gyda

hygyrchedd yn graidd iddynt. Bydd digideiddio meysydd casglu blaenoriaeth a chasglu deunydd digidol gwreiddiol yn helpu ymwelwyr i ddarganfod ac archwilio'r casgliad yn ddigidol a chreu cynnwys digidol newydd. Yn olaf, byddwn yn creu cysylltiadau ar draws y byd drwy ein casgliad i sicrhau bod cymunedau yng Nghymru a thramor yn cydweithio i'w ddatblygu.

## Ein Methodolegau Casglu – sut rydym yn casglu a datblygu'r casgliad

Mae democratiaeth ddiwylliannol yn ganolog i ddatblygu'r casgliad. Byddwn yn cydweithio â chymunedau fel cyd-guraduron, casglwyr a phenderfynwyr. Byddwn yn mynd ati i gefnogi cymunedau sy'n profi anghydraddoldebau neu hiliaeth, drwy gefnogi'r gwaith o weithredu Cynlluniau Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol, LHDTC+ a chydraddoldebau eraill Llywodraeth Cymru. Bydd y polisïau hyn yn rhoi ffocws clir ar gyfer casglu yn y dyfodol.

Byddwn yn adeiladu ar ddulliau casglu cyfredol ac yn datblygu methodolegau newydd sy'n sicrhau ein bod ni'n cynnwys unigolion a chymunedau ledled Cymru wrth benderfynu beth a sut y dylem ni gasglu. Gan weithio mewn partneriaeth â chymunedau amrywiol, a sefydliadau lleol a chenedlaethol, byddwn yn blaenoriaethu datblygiad ymarfer dan arweiniad y gymuned yn y meysydd canlynol:

- **Comisiynu.** Gan adeiladu ar y model comisiynu a ddatblygwyd drwy broject Ail-fframio Picton, byddwn yn ail-fframio a newid ffocws y broses gomisiynu i gefnogi amrywiaeth eang o ymarferwyr i ymateb i gasgliadau cyfredol a chreu gwaith newydd.
- **Hanes llafar.** Byddwn yn datblygu hybiau hyfforddi ar gyfer hanes llafar cymunedol ac yn adeiladu ar ddull cydweithio model Windrush i gefnogi cymunedau i gofnodi ac adrodd eu straeon eu hunain. Byddwn yn ehangu hanes llafar i amrywio a chofnodi straeon sy'n berthnasol ar draws ein holl ddisgyblaethau casglu.
- **Casglu ymateb cyflym.** Gan adeiladu ar ein gwaith i gydgasglu diwylliant deunydd y mudiad Mae Bywydau Du o Bwys, a Menter Casglu Covid, byddwn yn datblygu prosesau sy'n cefnogi casglu dan arweiniad y gymuned mewn ymateb i newidiadau cymdeithasol-wleidyddol ac economaidd mewn cymdeithas. Byddwn hefyd yn targedu casglu ymateb cyflym yn achos archaeoleg a byd natur dan fygythiad, yn arbennig sbesimenau daearegol, lle byddai'n cael ei ddinistrio fel arall. Byddwn ni hefyd yn ymateb yn gyflym er mwyn caffael gwrthrychau arbennig, neu o arwyddocâd cenedlaethol ar gyfer y casgliad, lle bo'n briodol a phosib.
- **Cyflawni'r Siarter Dad-drefedigaethu.** Byddwn yn treialu ac arbrofi gyda ffyrdd cydweithredol o weithio gydag ystod o gymunedau amrywiol i ddatblygu ystyron dyfnach a lluosog. Mewn cydweithrediad â'n partneriaid cymunedol, byddwn yn nodi gwrthrychau sy'n cefnogi darparu cyfrif o hanes sy'n fwy cytbwys, dilys a dad-drefedigaethol.

- **Datblygu casgliadau cyfredol.** Gyda chymunedau perthnasol, byddwn yn ail-fframio ac ailddosbarthu casgliadau cyfredol i'w gwneud yn fwy perthnasol, gweledol a hygyrch. Bydd y rhain yn cynnwys cynrychiolaeth pobl anabl, LHDTC+, a chasgliadau a all gefnogi pobl sy'n byw gyda dementia. Bydd gwneud defnydd gwell o'n casgliad cyfredol yn cynnwys amlygu gwrthrychau o bwys arwyddocaol ac ehangu eu cyrhaeddiad a'u heffaith.
- **Archaeoleg gymunedol.** Gyda chefnogaeth y Cynllun Henebion Cludadwy a'r Ddeddf Trysorau, byddwn yn symud y ffocws o'r hyn rydym yn ei gasglu i sut rydym yn cefnogi cymunedau i ddod o hyd i archaeoleg ar garreg eu drws mewn partneriaeth ag amgueddfeydd lleol a sefydliadau lleol.
- **Partneriaethau gwyddorau naturiol.** Drwy bartneriaethau cryfach â Cyfoeth Naturiol Cymru, yr Ardd Fotaneg Genedlaethol a chyrff trydydd sector fel Ymddiriedolaethau Bywyd Gwyllt, Parciau Cenedlaethol, Buglife a Plantlife, byddwn yn creu cyfleoedd i'r cyhoedd allu cyfrannu.
- **Defnyddio'n safleoedd ledled Cymru.** Byddwn yn datblygu'n casgliadau i sicrhau bod amrywiaeth ehangach o ddeunydd ar gael i gefnogi ac adrodd straeon mwy amrywiol ar draws ein safleoedd. Byddwn yn casglu gyda chymunedau i gefnogi'r gwaith o gyflawni amcanion strategol Amgueddfa Cymru. Bydd mwy o amrywiaeth yn y casglu i'w weld ym mhob safle.
- **Model casgliad cenedlaethol gwasgaredig.** Byddwn yn cydweithio mwy â Ffederasiwn Amgueddfeydd Cymru a sefydliadau eraill ledled Cymru i sicrhau bod casgliad cenedlaethol gwasgaredig yn cael ei ddatblygu.

## Casglu cynaliadwy

- Ail-gartrefu gwrthrychau

Wrth i'r casgliad cenedlaethol barhau i esblygu mae gennym gyfrifoldeb i adolygu'r casgliadau sydd gennym yn feirniadol. Rydyn ni eisoes wedi cychwyn rhaglen beilot i resymoli'r casgliad sy'n canolbwyntio ar y budd cyhoeddus a allai ddeillio o ail-gartrefu gwrthrychau yn ein casgliadau nad ydynt yn cael eu defnyddio'n ddigonol. Y nod yw rhoi 'bywyd newydd' i'r gwrthrychau hyn drwy eu harddangos a/neu eu defnyddio mewn cyd-destunau gwahanol lle gall y cyhoedd eu mwynhau unwaith eto. Ein blaenoriaeth yw ail-gartrefu i sefydliadau yng Nghymru sy'n gweithredu yn y sector addysg a'r trydydd sector, fel amgueddfeydd, ysgolion, mentrau cymdeithasol, grwpiau cymunedol a lleoliadau iechyd a lles fel cartrefi gofal. Mae cymunedau'n ganolog i'n penderfyniadau.

Byddwn hefyd yn adolygu ein casgliadau gwyddorau naturiol i nodi deunydd nad ydynt yn cyd-fynd â'n blaenoriaethau casglu a chanfod amgueddfeydd neu gyrff ymchwil sy'n cadw casgliadau sy'n addas ac sy'n gallu gwneud defnydd gwell ohonynt gydag arbenigedd perthnasol i gynhyrchu ymchwil newydd.

- Gwella hygyrchedd

Mae gennym tua 5.2 miliwn o eitemau yn ein casgliad. Dim ond tua 30,000 ohonynt sy'n hygyrch yn rheolaidd i'r cyhoedd drwy arddangosfeydd neu arddangosiadau, naill ai yn ein safleoedd ni neu drwy fenthyciad i leoliadau trydydd parti. Er bod unrhyw un yn gallu gofyn am weld eitemau yn ein casgliadau sydd wedi'u storio, rydyn ni am ei gwneud hi'n haws i bobl, yn enwedig y rhai sy'n byw ym mhob cwr o Gymru, i ddefnyddio a mwynhau ein casgliadau. Er mwyn sicrhau eu bod yn hygyrch yn ffisegol, mae angen i ni ystyried goblygiadau gofal a storio hirdymor yr eitemau a gasglwn pan fyddwn yn eu casglu yn y lle cyntaf. Mae angen i ni gydnabod heriau cadw rhai mathau o ddeunydd, er enghraifft deunydd plastig, a herio uniongrededd cyffredin bod rhaid cadw popeth am byth. Mae'n bwysig hefyd cydnabod bod defnyddio gwrthrych nawr yn gallu bod yn fwy buddiol na'i gadw yn ei gyflwr cyfredol at ryw ddefnydd amhenodol yn y dyfodol. Mae'n hanfodol ein bod ni'n agored a gonest am sut rydyn ni'n casglu, ac yn cynllunio ffyrdd i sicrhau mwy o ddefnydd o'n casgliadau cyfredol. I gyflawni hyn, byddwn yn:

- Ehangu ac ymgorffori'n rhaglen rhesymoli beilot
- Creu fframwaith ar gyfer cynnwys y cymunedau a gasglwn ganddynt mewn penderfyniadau ynghylch defnydd, gofal a chadwraeth yr eitemau rydym wedi'u casglu ganddynt
- Ystyried anghenion mynediad a dysgu defnyddwyr amrywiol wrth i gyfleoedd godi i adnewyddu neu ehangu storfeydd casgliadau

## Mynediad digidol

Gan nad yw pawb yn gallu gweld ein casgliadau'n gorfforol, mae angen i ni barhau i ddatblygu mynediad digidol i'n casgliadau. Mae angen i ni barhau i ddal a chofnodi cymaint o wybodaeth ag y gallwn am yr eitemau a gasglwn ar yr adeg rydym yn eu casglu – yn ein system rheoli casgliadau a'n llyfrgell asedau digidol. Gan mai'r asedau digidol hyn yw'r blociau adeiladu ar gyfer pob mynediad digidol i'n casgliadau, mae ansawdd y platfformau rydym yn eu hadeiladu wedyn yn gwbl ddibynnol ar ansawdd yr asedau hyn. Ein prif blatfform ar gyfer cyhoeddi digidol yw ein catalog ar-lein, Casgliadau Ar-lein. Rydym am i hwn, ac unrhyw blatfformau cysylltiedig a ddatblygwn (er enghraifft, y wefan celf gyfoes), adlewyrchu lleisiau amrywiol cymunedau Cymru.

Er mwyn gwneud hyn, byddwn yn:

- Datblygu dosbarthiadau perthnasedd drwy ein gwaith dad-drefedigaethu
- Datblygu geirfa o eiriau allweddol sy'n canolbwyntio ar y defnyddiwr, gan adeiladu ar y gwaith a ddechreuwyd drwy'r Project Digideiddio Celf Gyfoes
- Blaenoriaethu rhaglen i wneud sbesimenau gwyddorau naturiol yn hygyrch ar-lein i gynulleidfaoedd amrywiol
- Gweithio gyda'n Hymchwilwyr Cymunedol i gynnwys lleisiau cymunedau yn ein systemau rheoli casgliadau

- Blaenoriaethu meysydd casglu digidol sy'n cefnogi cynrychiolaeth, dad-drefedigaethu a'r argyfwng hinsawdd, ac ychwanegu'r cynnwys hwn at Gasgliadau Ar-lein fel porth i ddatblygu platfformau pwrpasol cysylltiedig
- Datblygu cyfeirnodi daearyddol ar-lein ar gyfer sbesimenau o Gymru (h.y. Systemau Gwybodaeth Ddaearyddol (GIS) neu gyflwyno ar sail cyfesurynnau)

## Blaenoriaethau casglu

Mae'r strategaeth yn cydnabod mai adnoddau cyfyngedig sydd gan Amgueddfa Cymru. Mae felly yn canolbwyntio ar y meysydd lle byddwn ni'n blaenoriaethu ein gweithgarwch casglu dros y 5 mlynedd nesaf. Pwrpas datblygu'r casgliad yw sicrhau ei fod yn gallu cefnogi'r ymrwymiadau canlynol yn Amgueddfa Cymru 2030 yn uniongyrchol:

- Cynrychioli pawb
- Diogelu ac adfer natur a'r amgylchedd
- Ysbrydoli creadigrwydd a dysgu am oes

Yn ogystal, bydd y strategaeth yn cefnogi'r ymrwymiadau canlynol:

- Cefnogi lles trwy lefydd a phrofiadau sy'n ysbrydoli
- Darganfod yr amgueddfa yn ddigidol
- Creu cysylltiadau ar draws y byd

Byddwn hefyd yn rhoi pwyslais arbennig ar gasgliadau sy'n cefnogi'r themâu ymchwil trawsbynciol yn y Strategaeth Strategaeth Ymchwil

Dad-drefedigaethu, Cynhwysiant, Diogelu'r amgylchedd a chynaliadwyedd a Cynefin.

## Alinio â strategaethau a pholisïau eraill Amgueddfa Cymru

Mae'r strategaeth hon yn cyd-fynd â Strategaeth Rhaglenni Cyhoeddus a Strategaeth Ymchwil Amgueddfa Cymru. Ei nod yw cefnogi'r gwaith o gyflawni rhai o Raglenni Cyhoeddus Amgueddfa Cymru. Gall rhai rhaglenni a amlinellir yn y Strategaeth Rhaglenni Cyhoeddus hefyd olygu casglu mewn meysydd newydd gyda chynulleidfaoedd perthnasol newydd. Mae Strategaeth Datblygu'r Casgliad hefyd yn cyd-fynd yn agos â'r Strategaeth Ymchwil, wrth i fethodolegau ymchwil cydweithredol newydd ddod ag ystyr newydd a dyfnach i gasgliadau cyfredol a newydd. Bydd y dull hwn yn cryfhau gweithio ar draws adrannau'r amgueddfa ac yn sicrhau cydlyniant i gasglu a mentrau ymchwil a cheisiadau am nawdd yn y dyfodol.

Tra bod y Strategaeth Datblygu'r Casgliad yn nodi pam a sut y byddwn yn casglu, mae'r Polisi Datblygu'r Casgliad, sy'n ofyniad Achrediad Amgueddfa, yn darparu mwy o fanylion am beth rydym yn ei gasglu. Mae ein gweithgarwch casglu yn cael ei gefnogi ymhellach gan gyfres o bolisïau gofalu a rheoli ar gyfer casgliadau cyhoeddus a gweithdrefnau mewnol.

## Nodau ac Effeithiau

Bydd y nodau canlynol yn cael eu datblygu fel blaenoriaethau i gefnogi'r ymrwymiadau yn Amgueddfa Cymru 2030. Mae effeithiau bwriedig a sampl o weithgareddau wedi'u hamlinellu hefyd.

| Make sure that everyone is represented | | |
|---|---|---|
| **Nod** | **Enghreifftiau o Weithgarwch** | **Effaith** |
| Casglu diwylliant materol a hanesion llafar gyda chymunedau o ddiwylliannau ac ethnigrwydd amrywiol, cymunedau LHDTC+, pobl F/fyddar a phobl anabl, a phobl sy'n wynebu anfantais economaidd-gymdeithasol i sicrhau bod eu hanes yn cael ei gynrychioli yn y casgliad cenedlaethol | • Cysoni gwaith y grŵp Cynrychiolaeth mewn Casgliadau ac Ymchwil i gefnogi cyflawni'r Strategaeth Datblygu'r Casgliad.<br>• Cyd-ddatblygu mentrau casglu gyda sefydliadau cymunedol ar lawr gwlad i gasglu gwrthrychau a hanesion llafar sy'n cynrychioli eu creadigrwydd, treftadaeth, iaith, hunaniaeth ddiwylliannol a'u gwreiddiau.<br>• Datblygu a gweithredu cynllun casglu LHDTC+ cenedlaethol ar y cyd â sefydliadau a chymunedau LHDTC+ ledled Cymru.<br>• Adeiladu ar waith blaenorol o archwilio'r casgliad am berthnasedd anabledd a anwybyddwyd a gwaith gyda phobl F/fyddar a phobl anabl i gynyddu cynrychiolaeth o brofiadau bywyd pobl F/fyddar ac anabl o fewn y casgliad.<br>• Datblygu cynllun casglu ar gyfer Celf mewn cydweithrediad â chymunedau ledled Cymru sy'n mynd i'r afael â thangynrychiolaeth yn y casgliad. | Mae cynyddu cynrychiolaeth yn y casgliad wedi'i ymgorffori ar draws adrannau ac yn cefnogi'r gwaith o gyflawni'r Strategaeth Rhaglenni Cyhoeddus, a'r Strategaeth Ymchwil.<br>Mwy o gysondeb rhwng y Strategaeth Ymchwil, y Strategaeth Datblygu'r Casgliad a'r Strategaeth Rhaglenni Cyhoeddus.<br>Mae cymunedau'n cael eu grymuso i lywio'r casgliad cenedlaethol, gan sicrhau bod eitemau a gesglir yn gynrychioliadol ac yn cael eu dehongli drwy eu profiad bywyd.<br>Mae'r casgliad yn dod yn fwy amrywiol, perthnasol a hygyrch i gynulleidfa ehangach ac yn sail i ddatblygu gwaith ymchwil pellach i weithredu cymunedol.<br>Mae'r casgliad yn cefnogi ymchwil i grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol ac ymchwil gyda'r grwpiau hynny.<br>Mae casgliadau LHDTC+ yn cefnogi gweithgarwch Pride ledled Cymru, mewn digwyddiadau Pride ac yn ystod mis Pride.<br>Mae casgliad a gyd-ddatblygwyd yn cynyddu cynrychiolaeth a dehongliad, gan gefnogi'r egwyddor Dim byd amdanom ni hebddom ni.<br>Mae casgliad a gyd-ddatblygwyd ar gael i gefnogi datblygiad Mis Hanes Pobl Anabl.<br>Mae'r casgliad celf yn fwy cynrychioladol o gymunedau amrywiol sy'n byw yng Nghymru heddiw ac yn y gorffennol<br>Bydd y casgliad celf yn adlewyrchu ystod ehangach o leisiau sydd hyd yma wedi'u hepgor o'r canon hanesyddol ar sail eu rhyw/a neu rywioldeb. |

| | | |
|---|---|---|
| Dad-drefedigaethu gwaith rhyngwladol a dad-drefedigaethu ac amrywio'r casgliadau cenedlaethol | • Cyflawni nodau'r Siarter Dad-drefedigaethu ar draws y 6 maes gwaith a ddiffiniwyd.<br>• Treialu a gwerthuso gwahanol fethodolegau a ffyrdd o weithio gyda phartneriaid cymunedol i weithredu'r Siarter.<br>• Datblygu rhwydweithiau rhyngwladol i rannu'r gwaith hwn a chreu partneriaethau byd-eang i gefnogi'r broses ddad-drefedigaethu. | Mae dad-drefedigaethu'r casgliad yn cefnogi'r gwaith o gyflawni'r Strategaeth Rhaglenni Cyhoeddus a datblygiad cynigion rhaglenni sy'n cefnogi gwrth-hiliaeth, a chydnabod anghyfiawnderau hanesyddol a chynnydd mewn ymwybyddiaeth.<br>Mwy o gyfleoedd i gymunedau rhyngwladol gydweithio ag Amgueddfa Cymru ar fentrau casglu a phrosesau dad-drefedigaethu<br>Mwy o bwyslais ar naratifau hanes Pobl Ddu mewn casgliadau<br>Nodi casgliadau sydd â chysylltiadau ag ymosodiadau trefedigaethol<br>Nodi casgliadau hiliol<br>Cynnydd yn nifer y gwrthrychau sy'n gysylltiedig â hanes cymunedau Du yng Nghymru heddiw ac yn y gorffennol |
| Casglu gwrthrychau sy'n cyflwyno naratif hanesyddol sy'n cyflwyno cyfrif cytbwys, dilys ac wedi'i ddad-drefedigaethu o'r gorffennol – un sy'n cydnabod anghyfiawnderau hanesyddol ac effaith gadarnhaol cymunedau ethnig lleiafrifol. | • Adeiladu ar a chyflawni'rcynllun casglu Hanes Pobl Ddu, Celf a Gwyddorau Naturiol gyda chymunedau Du ledled Cymru.<br>• Cyflawni'r Cynllun Casglu Hip Hop<br>• Sicrhau bod Hanes Pobl Ddu wedi'i ymgorffori o fewn yr holl ddisgyblaethau casglu a'i fod yn rhan o bob cynllun swydd curadurol. | Gellir defnyddio'r casgliad fel adnodd hyfforddi i gefnogi hyfforddiant gwrth-hiliol.<br>Mae'r casgliad yn fwy cynrychioliadol o boblogaeth Cymru, ac felly'n fwy perthnasol i fwy o bobl sy'n byw yng Nghymru heddiw.<br>Datblygu rhagor ar sgiliau casglwyr cymunedol a chofnodwyr hanes llafar.<br>Mae methodolegau casglu'n cael eu datblygu a'u harwain gan y gymuned.<br>Mae'r naratif hanesyddol y gallwn ei gyflwyno yn fwy cytbwys, dad-drefedigaethol a dilys, yn herio rhagdybiaethau'r canon hanesyddol ac yn dadwneud unrhyw ddileadau. |
| Sicrhau bod hanes a diwylliant ein cymunedau Du, Asiaidd ac ethnig lleiafrifol yn cael eu cynrychioli'n briodol drwy fuddsoddi ymhellach yn ein sector diwylliannol a rhwydwaith amgueddfeydd | • Defnyddio'r Grŵp Cynrychiolaeth mewn Casgliadau ac Ymchwil i gefnogi adolygiad o'r casgliad am dangynrychiolaeth ar draws yr holl gymunedau Asiaidd ac ethnig lleiafrifol.<br>• Adolygu archwiliad gyda phartneriaid cymunedol a blaenoriaethu meysydd ffocws.<br>• Datblygu cynlluniau casglu amlddisgyblaeth gyda phartneriaid cymunedol ledled Cymru i fynd i'r afael â thangynrychiolaeth a nodwyd. | Pob cymuned Asiaidd ac ethnig lleiafrifol yn teimlo eu bod yn cael eu cynrychioli'n well yn y casgliad<br>Gwaith archwilio a datblygu cynlluniau casglu yn cael ei arwain gan gymunedau i fynd i'r afael â meysydd heb gynrychiolaeth ddigonol yn y casgliad |

| | | |
|---|---|---|
| Datblygu ac ehangu casglu ymateb cyflym dan arweiniad y gymuned ac ymateb cyflym i gadw elfennau byd natur sydd mewn perygl | • Ymateb i ddigwyddiadau gwleidyddol ac economaidd-gymdeithasol cenedlaethol a rhyngwladol a sicrhau bod gan bawb lais a bod gan bawb yr hawl i gael eu clywed e.e. Casglu Covid, Argyfwng costau byw, Mae Bywydau Du o Bwys<br>• Ymgorffori Ymchwil Cyfranogol mewn casglu dan arweiniad y gymuned<br>• Ymateb i safleoedd byd natur sydd mewn perygl fel cloddiadau adeiladu dros dro | Ymateb cyflym dan arweiniad y gymuned wedi'i ymgorffori yn y ffordd rydym yn datblygu casgliadau<br>Methodolegau newydd ar gyfer casglu yn rhai sy'n cael eu harwain gan y gymuned ac yn cael eu gwerthuso gan gymunedau<br>Methodolegau newydd yn cael eu gwerthuso gan gymunedau<br>Deunydd cynrychioliadol yn cael ei gasglu gyda phartneriaid a'i gadw yn y casgliadau i'w ddefnyddio yn y dyfodol<br>Ehangu cynrychiolaeth sbesimenau o Gymru |
| Cyflawni argymhellion Fframwaith Treftadaeth Chwaraeon Cymru | • Cydnabod potensial croestoriadol casgliadau chwaraeon i gyrraedd cynulleidfaoedd newydd ac amrywiol<br>• Gweithio gyda Chymdeithas Bêl-droed Cymru a'r Amgueddfa Bêl-droed i gefnogi datblygiad casgliad pêl-droed<br>• Gweithio gyda Fframwaith Treftadaeth Chwaraeon Cymru i ddosbarthu'r casgliad i'r llefydd mwyaf perthnasol yng Nghymru | Casgliadau chwaraeon yn cael eu defnyddio mewn amryw o ffyrdd gan gymunedau amrywiol<br>Fframwaith cliriach ar gyfer casglu treftadaeth chwaraeon ar draws sefydliadau yng Nghymru |

<table>
<tr><th colspan="3">Ysbrydoli creadigrwydd a dysgu am oes</th></tr>
<tr><th>Nod</th><th>Gweithgarwch</th><th>Effaith</th></tr>
<tr><td>Datblygu a sefydlu Oriel Gelf Gyfoes Genedlaethol</td><td>• Gweithio gyda rhwydwaith o orielau ledled Cymru i hwyluso mynediad ehangach i’r casgliad celf<br>• Defnyddio’r casgliad fel sylfaen i amrywiaeth o fentrau dan arweiniad y gymuned</td><td rowspan="2">• Bydd y casgliad celf ar gael i gymunedau ledled Cymru.<br>• Bydd y casgliad celf ar gael yn ehangach i ysbrydoli artistiaid, a bydd cyfleoedd preswyl a chyfleoedd ymchwil comisiynu celf yn cael eu datblygu i greu dealltwriaeth ehangach o ddatblygiad addysgu’r celfyddydau a’i effaith yng Nghymru.<br>• Bydd y Casgliad Dylunio yn creu dealltwriaeth ehangach o hanes crefft, dylunio, pensaernïaeth a chreu yng Nghymru, gan gynnig y potensial ar gyfer cynnwys syniadau dylunio’r dyfodol a modelau newid systemau.</td></tr>
<tr><td>Datblygu Casgliad Dylunio i Gymru sy’n cefnogi, ysbrydoli a dathlu creadigrwydd ar draws ein holl safleoedd</td><td>• Datblygu casgliad dylunio newydd, gydag archwiliad o’r casgliad cyfredol a chynllun ar gyfer casglu yn y dyfodol</td></tr>
</table>

| Diogelu ac adfer natur a’r amgylchedd | | |
|---|---|---|
| **Nod** | **Gweithgarwch** | **Effaith** |
| Datblygu’r casgliad i godi ymwybyddiaeth y cyhoedd o’r newid amgylcheddol<br><br>Datblygu’r casgliad i godi ymwybyddiaeth o werth ac amrywiaeth y byd naturiol | • Ychwanegu at ac ehangu’r casgliad biolegol drwy raglenni ymchwil a phroject cydweithredol<br>• Casglu deunydd cenedlaethol a rhyngwladol perthnasol sy’n llywio’n bioamrywiaeth leol a’n helpu ni i fonitro newid<br>• Ail-fframio adeiladau hanesyddol fel adnoddau i ddysgu am ffyrdd cynaliadwy o fyw heddiw ac yn y gorffennol<br>• Gwella daliadau o adnoddau naturiol i fod yn sylfaen i ‘fywyd gwyrdd’ | Ymchwil sy’n nodi ac yn nodweddu’r byd naturiol ac yn cefnogi nodi newidiadau amgylcheddol i lywio sut i’w ddiogelu<br><br>Mwy o werthfawrogiad gan y cyhoedd o fyd natur a’r angen i’w ddiogelu drwy Raglenni Cyhoeddus<br><br>Mae casgliadau’n cael eu cydnabod fel adnoddau hanfodol i gefnogi ymchwil i ddeall newid amgylcheddol<br><br>Mwy o ddealltwriaeth gan y cyhoedd o’r argyfwng hinsawdd a natur<br><br>Casgliad all gefnogi cyflawni Rhaglenni Cyhoeddus sy’n codi ymwybyddiaeth o’r argyfwng amgylcheddol<br><br>Ein gwaith yn cael mwy o effaith fyd-eang gan wella trosglwyddo gwybodaeth a rhoi ein casgliadau mewn cyd-destun<br><br>Cynyddu dealltwriaeth y cyhoedd o ffynhonnell a defnydd sensitif o gerrig adeiladu |
| Datblygu’r casgliad i gefnogi cyflawni Cynefin | • Adolygu dosbarthiad daearyddol sbesimenau a nodi bylchau ac ychwanegu sbesimenau allweddol<br>• Fframio’r casgliad archaeoleg a gwyddorau naturiol i gefnogi cyflawni Cynefin ac adeiladu ar y pwyslais ar dreftadaeth leol drwy’r fenter Ar Eich Stepen Drws<br>• Defnyddio GIS i fapio casgliadau i amlygu eu perthnasedd lleol ledled Cymru | Gall cynulleidfaoedd a chymunedau ymgysylltu â deunydd sy’n berthnasol i’w hardal<br><br>Mae cymunedau’n teimlo perchnogaeth o’u treftadaeth leol, ac yn cymryd rhan yn y gwaith o gasglu a diogelu eu hanes a’u hamgylchedd naturiol |

| | | |
|---|---|---|
| Cyflawni'n cyfrifoldebau statudol ar gyfer y Ddeddf Trysorau, a'r Cynllun Henebion Cludadwy | • Parhau i weithio gyda darganfyddwyr i adrodd ar drysor sy'n cael ei ddarganfod yng Nghymru<br>• Cydweithio â'r FED i sicrhau bod casgliadau'n cael eu caffael yn lleol lle bo'n briodol<br>• Cyfrannu at ddeialog yng Nghymru i benderfynu a yw rhai o'r darganfyddiadau trysor o bwys cenedlaethol<br>• Cynyddu cefnogaeth ar gyfer ymgysylltiad cymunedau â'r Cynllun Henebion Cludadwy yng Nghymru | Amgueddfeydd lleol a rhanbarthol yn casglu mwy o drysorau sydd o berthnasedd lleol<br>Amgueddfa Cymru ac amgueddfeydd lleol ledled Cymru'n rhannu sgiliau'n well ac yn gweithio mewn partneriaeth agosach<br>Amgueddfeydd lleol yn cadarnhau bod deialog ar gyfer penderfynu ar arwyddocâd trysorau a ddarganfyddir yn fwy tryloyw ac agored<br>Cymrodeddu ar gyfer penderfyniadau ar drysorau a ddarganfyddir yn symud i Gymru<br>Cymunedau sy'n ymgysylltu â'r Cynllun Henebion Cludadwy ac yn cyfrannu ato'n teimlo eu bod yn cael mwy o gefnogaeth ac mae'r gweithgarwch yn fwy strwythuredig mewn mwy o rannau o Gymru<br>Cymunedau ac amgueddfeydd lleol yn teimlo mwy o berchnogaeth am gasgliadau archeolegol yng Nghymru |

## Cefnogi lles trwy lefydd a phrofiadau sy'n ysbrydoli

| Nod | Gweithgarwch | Effaith |
|---|---|---|
| Datblygu ac amrywio'r casgliad i gefnogi darpariaeth Amgueddfa Cymru yn y Gogledd | • Nodi sut mae angen ehangu'r casgliad Gwyddorau Naturiol i gynrychioli'r byd naturiol mewn arddangosiadau newydd<br>• Datblygu a chyflawni rhaglen ymgynghori gyda chymunedau amrywiol yn y Gogledd i adolygu a phrofi perthnasedd casgliadau cyfredol. Nodi meysydd blaenoriaeth ar gyfer canolbwyntio datblygiad casgliadau sy'n cefnogi cyflawni'r project ailddatblygu | Mae gan ymwelwyr ddealltwriaeth fwy cyfannol o hanes naturiol yr ardal a pharch mwy cyfannol ato<br>Mae casgliadau Amgueddfa Cymru yn y Gogledd yn amrywiol, amlddisgyblaethol a chroestoriadol a gellir eu defnyddio mewn amrywiaeth o ffyrdd i gyflawni nodau'r project ailddatblygu<br>Mae gan y casgliad gyrhaeddiad ehangach ledled Cymru<br>Mae casgliad y Gogledd yn adrodd stori cymunedau amrywiol heddiw, ac yn y gorffennol |

| | | |
|---|---|---|
| Adeiladu ar y gwaith o ddatblygu casgliad ar draws yr holl ddisgyblaethau sy'n cefnogi cyflawni'r agenda les | • Sicrhau hunaniaeth casgliad Lles i Gymru ar Gasgliadau Ar-lein drwy dagio<br>• Sicrhau bod datblygiad y casgliad yn cefnogi'r gwaith o gyflawni agenda Lles Amgueddfa Cymru | Adnodd sbesimenau gwyddorau naturiol newydd ar gael ar gyfer projectau lles<br>Mwy o wrthrychau wedi'u nodi fel rhai perthnasol i gyflawni'r rhaglen agenda lles<br>Casgliadau lles yn fwy hygyrch i fwy o bobl ac yn gallu cefnogi datblygiad rhaglen presgripsiynu cymdeithasol yr Amgueddfa |

## Darganfod yr amgueddfa yn ddigidol

| Nod | Gweithgarwch | Effaith |
|---|---|---|
| Datblygu a chyflawni rhaglen i ddigideiddio casgliadau blaenoriaeth a sicrhau bod casgliadau ar gael ar-lein | • Digideiddio'r Casgliad Celf Gyfoes a chreu platfform digidol pwrpasol newydd<br>• Cyflawni elfennau mynediad digidol a chasgliadau'r Siarter Dad-drefedigaethu<br>• Sicrhau bod lleisiau'r gymuned yn cael eu cynnwys yng Nghasgliadau Ar-lein, gyda chefnogaeth proses Ymchwil gyda'r Gymuned | Mae'r holl weithiau celf cyfoes a'r rhai sy'n berthnasol i heddiw ar gael yn ddigidol<br>Mae lleisiau artistiaid Cymreig a/neu artistiaid sy'n gweithio yng Nghymru yn cael sylw drwy'r wefan celf gyfoes<br>Mae gan artistiaid, addysgwyr, dysgwyr, gofodau celf a chymunedau adnodd celf gyfoes<br>Mae'r holl wrthrychau ar yr archwiliad dad-drefedigaethu wedi'u digideiddio ac yn hygyrch ar Gasgliadau Ar-lein<br>Mae allbynnau Ymchwil gyda'r Gymuned wedi'u cynnwys yng Nghasgliadau Ar-lein |
| Sefydlu dosbarthiad newydd ar gyfer gwrthrychau ar y cyd â chymunedau<br>Cychwyn rhaglen ddigideiddio ar gyfer y casgliad Gwyddorau Naturiol fel ei fod ar gael i gynulleidfaoedd amrywiol ar-lein | • Treialu dulliau newydd o ddosbarthu drwy broject digideiddio Celf Gyfoes Genedlaethol a'r siarter dad-drefedigaethu<br>• Sefydlu geiriau chwilio newydd a chwiliadau geiriau allweddol drwy dagio<br>• Cynllunio a chyflawni project digideiddio hirdymor gyda phlatfform hyblyg sy'n sicrhau'r mynediad gorau posibl i gynulleidfaoedd amrywiol | Mae'n haws chwilio am gasgliadau ar-lein<br>Mae mwy o wrthrychau yn fwy perthnasol i fwy o bobl<br>Mae dehongliadau cymunedol wedi'u cynnwys yng Nghasgliadau Ar-lein<br>Mae datblygu dosbarthiad newydd yn cael ei arwain gan y gymuned<br>Gwell mynediad i'r casgliad sy'n berthnasol i anghenion defnyddwyr i hwyluso mwy o ymwybyddiaeth a mwy o ddefnydd o'r casgliadau<br>Mae casgliadau'n cael eu defnyddio i gefnogi'r Cwricwlwm newydd i Gymru<br>Mae casgliadau'n hygyrch drwy byrth byd-eang (menter Ymchwil ac Arloesi yn y DU (UKRI) a Chyngor Ymchwil y Celfyddydau a'r Dyniaethau (AHRC))<br>Mae casgliadau'n cyfrannu at effaith fyd-eang drwy fynediad i ymchwil wyddonol |

| Creu cysylltiadau ar draws y byd | | |
|---|---|---|
| **Nod** | **Gweithgarwch** | **Effaith** |
| • Rhannu casgliadau i adeiladu ar y ddealltwriaeth fyd-eang o'r byd naturiol, celfyddydau a dyniaethau. | • Cynnal rhaglen weithredol o fenthyciadau rhyngwladol i'w harddangos ac ar gyfer ymchwil<br>• Defnyddio casgliadau i groesawu cydweithredwyr rhyngwladol<br>• Darparu data gwyddonol i ddefnyddwyr rhyngwladol, drwy fynediad digidol a chyhoeddiadau a adolygir gan gymheiriaid<br>• Defnyddio dad-drefedigaethu casgliadau i feithrin cysylltiadau byd-eang gyda'r cymunedau y mae gwrthrychau'n deillio ohonynt | Cyfrannu at raglenni ymchwil byd-eang a sicrhau ein bod ni'n cael gwybodaeth wyddonol ryngwladol<br>Bydd y casgliad yn ein galluogi ni i arwain ar ymchwil i rôl Cymru yn yr Ymerodraeth Brydeinig<br>Mae casgliadau'n cael eu defnyddio mor eang â phosibl ar gyfer trosglwyddo gwybodaeth a sicrhau bod y casgliad yn cael cymaint o effaith fyd-eang â phosibl<br>Hyrwyddo ymchwil a gynhyrchir gan yr Amgueddfa i gynulleidfaoedd rhyngwladol<br>Gall casgliadau sydd wedi'u digideiddio gyrraedd cynulleidfaoedd a chymunedau perthnasol ym mhob cwr o'r byd<br>Gall straeon lleol gysylltu ag eraill ledled y byd i herio arwahanu gwahanol gymunedau |

Mae rhai mentrau casglu yn dibynnu ar gyllid allanol

## Sut y byddwn ni'n mesur ac adrodd ar ein gwaith

| Prif Fesurau | Mesurau Eilaidd |
|---|---|
| Nifer y gwrthrychau neu sbesimenau a gasglwyd gyda phartneriaid cymunedol o ardaloedd heb gynrychiolaeth ddigonol | |
| Gwerthusiad partneriaid cymunedol o fentrau casglu a chyflawni cynlluniau casglu | • Astudiaeth achos wedi'i darparu gan brif guraduron mentrau casglu |
| Nifer y gwrthrychau sydd wedi'u dad-drefedigaethu | |
| Nifer y geiriau chwilio/geiriau allweddol newydd a ddatblygwyd gyda chymunedau / nifer y gwrthrychau wedi'u tagio | |
| Nifer y casgliadau ar Gasgliadau Ar-lein sy'n cynnwys manylion yn y maes gwybodaeth gymunedol | |
| Benthyciadau yng Nghymru | • Dangos model casgliad cenedlaethol gwasgaredig |
| Benthyciadau digidol | |
| Cyflenwi delweddau digidol (h.y. gwyddorau naturiol yn darparu delweddau i ymchwilwyr, ond nid benthyciad ffisegol) | |
| Nifer y gwrthrychau a ail-gartrefwyd er budd y cyhoedd | • Astudiaeth achos i ddarparu cyd-destun a data ansoddol am effaith budd cyhoeddus |
| Nifer y gwrthrychau/arteffactau/sbesimenau newydd sydd â delweddau a gwybodaeth ategol yn cael eu rhannu ar blatfformau digidol yn y cyfnod adrodd | |
| Nifer y defnyddwyr Casgliadau Ar-lein | • Gosod llinell sylfaen a chynlluniau busnes ar gyfer dangosyddion perfformiad allweddol |
| Nifer sy'n defnyddio platfformau casgliadau eraill | |
| Erthyglau am gasgliadau ar wefan Amgueddfa Cymru | |
| Datblygu methodoleg werthuso'n seiliedig ar ein gwerthoedd a'n hymrwymiadau – sut ydyn ni'n rhoi ein gwerthoedd ar waith drwy ein prosesau? | • Creu damcaniaeth newid i fesur yn ei herbyn. Pennu mewnbynnau a gweithgareddau yn erbyn allbynnau, canlyniadau ac effeithiau allweddol |

Adroddiadau adrodd a monitro cynnydd ar gyflawni Strategaeth Datblygu'r Casgliad i'w trafod bob chwarter yn yr Uwch Dîm Gweithredol, gydag adroddiad chwarterol yn y Pwyllgor Cynllunio, Perfformiad ac Adnoddau wedi'i gyflwyno gan y Cyfarwyddwr Casgliadau ac Ymchwil.